**Pwyllgor Trwyddedu CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 1 Chwefror 2022 am 5.00pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd L Hooper
Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd P Howe
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd T Williams

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu
Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Cwnstabl J Roberts - Heddlu De Cymru
Cwnstabl T Williams - Heddlu De Cymru

## 72 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Williams wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 7 ar yr agenda: 'Rydw i'n adnabod yr ymgeisydd, ni fydda i'n pleidleisio ar yr eitem hon'.

## 73 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 74 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr, 2021 yn rhai cywir.

**75** **Trafod Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 22.11.21 - 16.01.22**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 22 Tachwedd 2021 a 16 Ionawr 2022 i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**76** **Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**77** **Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 22.11.21 - 16.01.22**

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 22 Tachwedd 2021 i 16 Ionawr 2022.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**78** **Trafod y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:**

Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion y cais canlynol ar gyfer adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr ND o Aberpennar ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais.

(**Nodwch:** A hithau wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 7, roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Williams wedi gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon).

**79** **Crynodeb Gorfodi (Gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 27.11.21 - 17.01.22**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r

adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 27 Tachwedd 2021 a 17 Ionawr 2022.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.05pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**